Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008

## Canllawiau i drefnwyr angladdau

**Mawrth 2022**

# Cynnwys

Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 2

Y ffurflenni statudol 3

Ffurflen Amlosgi 1 – Cais i amlosgi gweddillion person ymadawedig (yn amnewid am ffurflen Amlosgi 1 a gyhoeddwyd yn 2009) 4

Ffurflen Amlosgi 3 – Cais i amlosgi gweddillion baban marw-anedig (yn amnewid am ffurflen Amlosgi 3 a gyhoeddwyd yn 2009) 7

Ffurflen Amlosgi 4 - Tystysgrif Feddygol (wedi disodli ffurflen B) 8

Ffurflen Amlosgi 6 – Tystysgrif crwner (wedi disodli ffurflen E) 8

Ffurflen Amlosgi 9 – Tystysgrif baban marw-anedig 9

Ffurflen Amlosgi 11 – Tystysgrif ar ôl archwiliad post-mortem (wedi disodli ffurflen D) 9

Ffurflen Amlosgi 13 - Awdurdodi amlosgi gweddillion plentyn marw-anedig gan ganolwr meddygol 10

Rhagor o Wybodaeth 11

Atodiad A – Awgrym o eiriad i'w ddefnyddio i egluro hawl archwilio i ymgeiswyr 12

Atodiad B – Mewnblaniadau pŵer batri a mewnblaniadau eraill a allai achosi problemau wrth amlosgi gweddillion dynol 14

# Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008

1. Daeth Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 (Rheoliadau 2008) i rym ar 1 Ionawr 2009. Fe wnaethon nhw foderneiddio a chyfuno'r holl reoliadau blaenorol, gan ddisodli Rheoliadau Amlosgi 1930 (fel y'u diwygiwyd). Cafodd Rheoliadau 2008 eu diwygio yn 2016, 2017 ac eto yn 2022. Gellir lawrlwytho'r ffurflenni oddi ar ein gwefan yn www.gov.uk/government/collections/cremation-forms-and-guidance.
2. Efallai na fydd y ffurflenni a wnaed o dan Reoliadau 1930 yn cael eu defnyddio mwyach. Efallai na fydd y ffurflenni cais a wnaed o dan Reoliadau gwreiddiol 2008 yn cael eu defnyddio mwyach. Rhaid gwneud ceisiadau am amlosgi gan ddefnyddio'r ffurflenni a gyflwynwyd drwy Reoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2017.
3. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, yn gwneud darpariaeth ar gyfer creu safonau ymddygiad mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg ac yn gosod dyletswyddau ar gyrff penodol i gydymffurfio â'r safonau hynny. Mae Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2017 yn gwneud darpariaeth ar gyfer darparu ffurflenni amlosgi yn Gymraeg.
4. Dylech fod yn gyfarwydd â thestun y Rheoliadau. Mae hawl yr ymgeisydd am amlosgiad i archwilio'r dystysgrif feddygol (ffurflen Amlosgi 4) yn arbennig o bwysig cyn i'r canolwr meddygol awdurdodi'r amlosgi. Ers i reoliadau 2008 ddod i rym, mae nifer yr ymgeiswyr sy'n arfer yr hawl hon wedi bod yn gymharol isel, ond byddwn yn parhau i adolygu hyn.
5. Ceir awgrym o'r geiriad yn Atodiad A a gallwch ei ddefnyddio pan fyddwch yn trafod yr hawl i archwilio'r tystysgrifau meddygol gyda'r ymgeisydd. Sylwch nad oes hawl i archwilio'r tystysgrifau meddygol os yw marwolaeth wedi cael ei chyfeirio at grwner.
6. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r opsiynau ar gyfer beth all ddigwydd gyda'r llwch yn dilyn yr amlosgi ac, yn benodol, pa risg, os o gwbl, a geir na fydd yr amlosgiad yn arwain at adfer llwch.
7. Dylech sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r Canllawiau hyn, pryd y maent yn berthnasol a sut y gallent gael gafael arnynt. Mae copi o'r Canllawiau ar gael yn https://www.gov.uk/government/collections/cremation-forms-and-guidance

# Y ffurflenni statudol

8. Mae'n bwysig cadw at y geiriad statudol yn llwyr. Cyfarwyddir canolwyr meddygol i wrthod ffurflenni nad ydynt yn dilyn y geiriad statudol neu lle gwnaed newidiadau sylweddol i fformat y ffurflenni.

9. Mae'r ffurflenni'n ei gwneud yn glir ei bod yn drosedd dan Ddeddf Amlosgi 1902 i wneud datganiad ffug yn fwriadol er mwyn cael amlosgiad. Dylid rhoi gwybod i'r heddlu am unrhyw bryderon am ddatganiadau ffug er mwyn ymchwilio iddynt gan fod y rhain yn faterion troseddol. Ni all y canolwr meddygol na'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ymchwilio i faterion troseddol.

10. Ceir 12 ffurflen, ac eglurir y rhai a allai fod yn berthnasol i chi ar y tudalennau canlynol.

11. Mae'r gofyniad am dystysgrif feddygol gadarnhau (ffurflen Amlosgi 5) wedi cael ei ddileu'n barhaol.

# Ffurflen Amlosgi 1 – Cais i amlosgi gweddillion person ymadawedig (wedi disodli ffurflen Amlosgi 1 a gyhoeddwyd yn 2009)

12. Rhaid i’r ymgeisydd am amlosgi lenwi’r ffurflen hon. Dylai hwn fel arfer fod yn berthynas agos neu'n ysgutor. Dylid rhoi rhesymau ar y ffurflen yn egluro pam nad yw unrhyw berson sy’n gwneud y cais yn berthynas agos nac yn ysgutor. Rhaid ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen hon a rhaid llenwi pob rhan o’r ffurflen cyn ei throsglwyddo i’r amlosgfa. Dylech helpu ymgeiswyr i ddarparu unrhyw wybodaeth sy’n ofynnol.

13. Gellir trosglwyddo ffurflenni’n electronig neu fel dogfennau papur. Pan fo ffurflen yn gofyn am lofnod a'i bod yn cael ei derbyn yn electronig, rhaid i'r llofnod gydymffurfio â'r gofynion yn adran 7(2) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000.

14. Mae trosglwyddiad electronig o ffurflen bapur wedi’i llofnodi sydd wedi’i derbyn fel ffacs neu fel atodiad e-bost o sgan neu lun yn dderbyniol. Nid oes yn rhaid i’r amlosgfa dderbyn y ffurflen bapur wedi’i llofnodi pan fydd trosglwyddiad electronig y ffurflen honno wedi’i dderbyn.

15. Lle nad oes llofnod wedi’i ysgrifennu â llaw wedi’i roi yn y lle gwag yn y ffurflen sydd wedi’i chadw ar gyfer y llofnod, dylid teipio enw’r llofnodwr i mewn. Mae enghreifftiau o’r hyn a allai fod yn llofnod electronig yn cynnwys
    - Trawsyriad o gyfrif e-bost sy'n perthyn i'r llofnodwr
    - Copi wedi’i sganio o lofnod y llofnodwr wedi’i roi yn adran llofnod y ffurflen
    - Llofnod y llofnodwr wedi ei osod yn uniongyrchol ar y ffurflen drwy sgrin gyffwrdd.
    - Defnyddio gwasanaeth dilysu llofnodion electronig.

16. Mae Cwestiwn 10 yn gofyn am fewnblaniadau peryglus. Bydd angen i’r canolwr meddygol wirio a chymharu’r wybodaeth a ddarperir yn y cais gyda’r wybodaeth a roddir yn y dystysgrif feddygol. Ar ôl trafod gyda’r ymgeisydd, efallai y byddwch hefyd yn gallu darparu gwybodaeth neu gadarnhau bod y mewnblaniad wedi cael ei dynnu. Dylech fod yn ymwybodol, fodd bynnag, y gall rhai mewnblaniadau achosi niwed i beiriannau neu fywyd dynol. Felly, mae’n hanfodol sicrhau bod unrhyw wybodaeth am fewnblaniadau, ac a ydynt wedi eu tynnu ai peidio, wedi’i chynnwys ar ffurflen Amlosgi 1. Ceir rhestr o fewnblaniadau a all achosi problemau wrth amlosgi yn Atodiad B.

17. Mae Rhan 5y ffurflen yn delio â hawl yr ymgeisydd i archwilio’r dystysgrif feddygol, ffurflen Amlosgi 4, cyn i’r canolwr meddygol awdurdodi’r amlosgi. Rydym yn disgwyl i chi roi gwybod i’r ymgeisydd mewn ffordd niwtral am ei hawl i archwilio’r dystysgrif feddygol, ac nid ydym yn annog nac yn rhwystro ymgeiswyr rhag arfer yr hawl honno (ceir awgrym o eiriad yn Atodiad A ). Os nad yw’r ymgeisydd yn dymuno archwilio’r dystysgrif, dylid gadael Rhan 5 yn wag. Dylid rhoi gwybod i’r amlosgfa ar unwaith pan fydd y ymgeisydd wedyn yn penderfynu ei fod yn dymuno archwilio’r dystysgrif ar ôl gadael Rhan 5 y ffurflen gais yn wag.

18. Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol, mewn rhai amgylchiadau, y gallai fod angen cyfeirio’r farwolaeth at grwner. Gall y crwner wedyn orchymyn archwiliad post-mortem neu agor cwest. Yn yr amgylchiadau hyn, nid oes hawl i gael archwiliad gan y bydd y crwner yn llenwi ffurflen Amlosgi 6 ac nid oes tystysgrifau meddygol i'w harchwilio. Efallai yr hoffech ysgrifennu “ddim yn berthnasol – marwolaeth wedi’i chyfeirio at grwner” yn Rhan 5 ar gyfer achosion o’r fath.

19. Nid oes ateb hawdd i gysoni hawl yr ymgeisydd i gael archwiliad gydag angladd amserol. Eich prif rôl yw sicrhau bod y ffurflenni’n cael eu llenwi cyn gynted ag y bo modd, er mwyn hwyluso’r archwilio, ac – yn bwysig – er mwyn cadw mewn cysylltiad â’r holl bartïon sy’n gysylltiedig â’r broses.

20. Dylech sicrhau bod ffurflenni Amlosgi 1 a 4 yn cael eu hanfon i’r amlosgfa cyn gynted â phosibl cyn dyddiad yr angladd. Gwneir hyn er mwyn sicrhau nad yw'r angladd yn cael ei ohirio os bydd yr ymgeisydd am archwilio'r dystysgrif feddygol. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall yr ymgeisydd wrthod y cyfle i archwilio’r dystysgrif os byddai’n well ganddynt i’r angladd gael ei gynnal cyn gynted ag y bo modd. Dylid rhoi gwybod ar unwaith i’r amlosgfa os yw’r ymgeisydd yn penderfynu peidio ag archwilio’r ffurflenni ar ôl rhoi tic cadarnhaol yn Rhan 5.

21. Dylid rhoi gwybod i ymgeiswyr, os ydynt wedi nodi eu bod yn dymuno archwilio’r dystysgrif feddygol, y bydd yr amlosgfa’n rhoi gwybod iddynt pan fydd y tystysgrifau wedi dod i law ac y byddant yn trefnu i’w harchwilio o fewn 48 awr i’r hysbysiad hwnnw. Dylech roi gwybod iddynt y gallant ddirprwyo archwiliad i enwebai neu y gallant gael rhywun gyda hwy. Mae’r gofod yn swyddfeydd amlosgfeydd yn gyfyngedig weithiau ac rydym yn sylweddoli nad yw bob amser yn hawdd dod o hyd i le addas i’r ymgeisydd archwilio’r dystysgrif feddygol. Gall fod yn dderbyniol i’r ymgeisydd archwilio’r ffurflen yn eich swyddfa, ond dim ond gyda chytundeb yr awdurdod amlosgiadau y dylai hynny fod.

22. Rydym wedi rhoi gwybod i awdurdodau amlosgiadau nad ydym yn disgwyl i’r ymgeisydd orfod talu ffi ar wahân am archwilio’r dystysgrif feddygol. Fodd bynnag, os yw’r ymgeisydd am gael esboniad meddygol am achos y farwolaeth, dylech ei hysbysu y gall y canolwr meddygol godi ffi am wneud hyn (er mai mater i’r canolwr meddygol yn

unig yw hynny). Ar y llaw arall, os yw'r ymgeisydd yn dymuno tynnu sylw'r canolwr meddygol at anghysondeb neu anghywirdeb posibl yn y dystysgrif feddygol, nid ydym yn credu y dylid codi tâl am wneud hynny.

23. Os yw archwiliad yr ymgeisydd o'r dystysgrif feddygol yn codi posibilrwydd nad oedd achos y farwolaeth yn naturiol, gall y canolwr meddygol ystyried y dylid cyfeirio'r achos at grwner i'w ystyried ymhellach. Croesewir unrhyw gymorth y gallwch ei roi i sicrhau bod yr atgyfeiriad yn digwydd mor llyfn a chyflym â phosibl.

24. Rhaid archwilio'r dystysgrif feddygol o leiaf 24 awr cyn y bydd yr angladd yn cael ei gynnal, er mwyn i'r canolwr meddygol neu eraill allu cynnal unrhyw ymchwiliad neu eglurhad pellach. Efallai y bydd y teulu am i'r angladd fynd rhagddo ond dylid gohirio amlosgi, rhag ofn y bydd y crwner am i'r corff gael ei archwilio. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i'r corff gael ei ddychwelyd i'ch eiddo tra bydd y crwner yn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol. Bydd achosion fel hyn yn brin iawn.

25. Nid ydym yn disgwyl y bydd galw mawr am archwiliad, o gofio y bydd yr achosion lle mae pryder amlwg eisoes wedi cael eu cyfeirio at y crwner ar gyfer ymchwiliad.

26. Mae Rhan 6 y ffurflen yn ymdrin â dymuniadau'r ymgeiswyr am yr hyn a ddylai ddigwydd i'r llwch ar ôl yr amlosgi. Rydym wedi cynghori awdurdodau amlosgiadau y dylai trefnwyr angladdau feddu ar ddealltwriaeth fanwl o'r gwasanaethau a ddarperir gan yr amlosgfa a dylech helpu ymgeiswyr i ddarparu cyfarwyddiadau y gellir eu cyflawni ar gyfer yr hyn a ddylai ddigwydd i'r llwch. Dylech sicrhau bod gan yr ymgeisydd fanylion cyswllt ar gyfer yr amlosgfa a bod gennych gopïau o unrhyw wybodaeth a gynhyrchwyd i'w chyflwyno i deuluoedd a'u trafod gyda hwy.

27. Nid oes raid i amlosgfeydd dderbyn cais sy'n cynnwys cyfarwyddiadau na allant eu cyflawni. Os nad ydych yn siŵr, dylech chi neu'r ymgeisydd drafod y cyfarwyddiadau gyda'r amlosgfa cyn cyflwyno'r cais. Os nad yw amlosgfa'n gallu derbyn cais oherwydd nad yw'n gallu cyflawni'r cyfarwyddiadau ar gyfer yr hyn a ddylai ddigwydd i'r llwch, gellir darparu cyfarwyddiadau ar wahân yn ysgrifenedig heb fod angen cyflwyno cais newydd.

28. Dylech drafod gyda'r ymgeiswyr y risg na fydd llwch yn cael ei adfer ar ôl yr amlosgi. Mae'r sefyllfaoedd hyn yn brin a lle maent yn digwydd maent yn ymwneud ag amlosgi babanod bach iawn neu farw-anedig ac amlosgi rhai rhannau o'r corff. Os nad ydych yn siŵr, dylech drafod y camau y maent yn eu cymryd gyda'r amlosgfa i sicrhau bod cymaint o lwch â phosibl yn cael ei adfer. Gofynnir i bob ymgeisydd gadarnhau eu bod yn deall y risg hon gan gynnwys y rheini sy'n gwneud cais am amlosgi plant ac oedolion.

29. Rydym yn cydnabod, wrth drefnu amlosgi, efallai na fydd yr ymgeisydd yn dymuno penderfynu eto beth ddylai ddigwydd i'r llwch. Nid oes angen gohirio cais am amlosgi

tra bo'r ymgeisydd yn penderfynu beth ddylai ddigwydd i'r llwch ac, o dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r ymgeisydd ddewis opsiwn 3 *Llwch i'w gadw yn aros am eich penderfyniad*. Dylai'r ymgeisydd ddarparu cyfnod neu ddyddiad ar gyfer cysylltu â'r amlosgfa i roi rhagor o gyfarwyddiadau.

30. Mae'n bwysig rhoi gwybod i'r ymgeisydd, os ydynt yn dymuno i'r llwch gael ei gladdu mewn bedd/plot coed rhosod, y bydd angen iddynt gael awdurdod gan ddeiliad presennol y weithred. Os yw deiliad y weithred wedi marw, bydd yr awdurdod amlosgi'n cynghori ynghylch trosglwyddo'r hawliau i ddeiliad gweithred newydd.

# Ffurflen Amlosgi 3 – Cais i amlosgi gweddillion baban marw-anedig (wedi disodli ffurflen Amlosgi 3 a gyhoeddwyd yn 2009)

31. Gall un o rieni'r baban marw-anedig lenwi'r ffurflen hon ond gall swyddog profedigaeth yr ysbyty ei llenwi hefyd os bydd y rhieni'n gofyn am hynny. Nid oes hawl i archwilio'r dystysgrif marw-enedigaeth gysylltiedig (ffurflen Amlosgi 9), gan nad oes achos marwolaeth. Dylech sicrhau bod ffurflen Amlosgi 3 naill ai'n cael ei hategu gan ffurflen Amlosgi 9 neu gan ddatganiad a roddir gan berson sy'n gallu rhoi gwybodaeth am y babi marw-anedig (gweler rheoliad 20(2)). Lle bu marw-enedigaeth babi y tu allan i Gymru a Lloegr, gellir rhoi ffurflen sy'n cyfateb yn fras i ffurflen Amlosgi 9, os yw'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol ar ffurflen Amlosgi 9.

32. Mae paragraffau 26-30 uchod yr un mor berthnasol i Ran 6 Ffurflen Amlosgi 3.

# Ffurflen Amlosgi 4 - Tystysgrif Feddygol (wedi disodli ffurflen B)

33. Bydd angen i’r ffurflen hon gael ei llenwi gan ymarferydd meddygol cofrestredig sydd â thrwydded i ymarfer (mae hyn yn cynnwys cofrestriad dros dro neu gyfnodol) a all ardystio achos y farwolaeth. Mae’n cynnwys y wybodaeth fwyaf manwl am amgylchiadau’r farwolaeth. Dylid ateb pob cwestiwn. Bydd angen i'r ymarferydd meddygol sy'n llenwi'r ffurflen roi gwybodaeth ynghylch a oes unrhyw fewnblaniad peryglus wedi cael ei dynnu ac a yw'r farwolaeth wedi cael ei thrafod gyda'r crwner.

34. Mae canllawiau ar gyfer Ymarferwyr Meddygol sy’n llenwi ffurflen Amlosgi 4 a Chanllawiau ar gyfer Canolwyr Meddygol Amlosgfa ar gael yn https://www.gov.uk/government/collections/cremation-forms-and-guidance. Dylech fod yn gyfarwydd â pha ymarferwyr meddygol all lenwi ffurflen Amlosgi 4.

# Ffurflen Amlosgi 6 – Tystysgrif crwner (wedi disodli ffurflen E)

35. Cofiwch fod lle i gofnodi achos y farwolaeth. Ni ddylid gadael hwn yn wag (hyd yn oed os nad yw’r achos wedi’i ganfod) a dylai’r ffurflen gael ei llofnodi a’i dyddio gan y crwner. Dylid dychwelyd unrhyw ffurflenni anghyflawn i swyddfa'r crwner i'w llenwi.

# Ffurflen Amlosgi 9 – Tystysgrif baban marw-anedig

36. Dylid cysylltu'r ffurflen hon â ffurflen Amlosgi 3 a'r ddogfen gofrestru briodol. Os yw'r canolwr meddygol yn fodlon y gellir amlosgi, bydd ef neu hi yn ei awdurdodi gyda ffurflen Amlosgi 13. Gall bydwraig gofrestredig lenwi Ffurflen Amlosgi 9 yn ogystal ag ymarferydd meddygol cofrestredig.

# Ffurflen Amlosgi 11 – Tystysgrif ar ôl archwiliad post-mortem (wedi disodli ffurflen D)

37. Bydd angen i awdurdodau amlosgiadau benderfynu pwy ddylai dalu am unrhyw archwiliad post-mortem a orchmynnwyd gan y canolwr meddygol. Bydd angen iddynt hefyd sicrhau bod holl ddarpariaethau perthnasol Deddf Meinweoedd Dynol 2004 yn cael eu bodloni. Mae'r rhain yn cynnwys unrhyw ganiatâd angenrheidiol i'r archwiliad post-mortem gael ei gynnal gan y person mwyaf priodol (gweler cod ymarfer HTA Post-Mortem am arweiniad ar bwy all roi caniatâd yma https://www.hta.gov.uk/) a all fod yn ymgeisydd neu'n aelod arall o'r teulu, bod yr archwiliad post-mortem yn cael ei wneud gan batholegydd dan awdurdod trwydded a roddwyd at y diben hwnnw gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, a bod y man lle mae'r archwiliad post-mortem i'w gynnal hefyd wedi'i drwyddedu'n briodol. Efallai y gofynnir i chi helpu i gael y caniatâd angenrheidiol.

# Ffurflen Amlosgi 13 - Awdurdodi amlosgi gweddillion plentyn marw-anedig gan ganolwr meddygol

38. Ni fydd y canolwr meddygol ond yn awdurdodi amlosgi babi marw-anedig ar ôl ystyried ffurflen Amlosgi 3 a naill ai ffurflen Amlosgi 9 (neu'r ffurflen dramor gyfatebol) neu ddatganiad a roddir gan berson a all roi gwybodaeth am yr enedigaeth a'r ddogfen gofrestru briodol.

# Rhagor o Wybodaeth

39. Sylwch nad oes canllawiau wedi'u darparu ar gyfer trefnwyr angladdau ar ffurflenni Amlosgi 7 (Tystysgrif yn dilyn archwiliad anatomegol); 8 (Tystysgrif yn rhyddhau rhannau o'r corff ar gyfer amlosgi); 10 (Awdurdodi amlosgi person marw gan ganolwr meddygol); a 12 (Awdurdodi amlosgi rhannau o'r corff gan ganolwr meddygol) gan nad oedd hynny yn cael ei ystyried yn angenrheidiol.

40. Dydy'r canllawiau hyn ddim yn gyflawn. Os oes gennych fwy o ymholiadau neu os ydych angen mwy o wybodaeth am y rheoliadau, cysylltwch â'r tîm Polisi Claddu ac Amlosgi yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn coroners@justice.gov.uk

# Atodiad A – Awgrym o eiriad i'w ddefnyddio i egluro hawl archwilio i ymgeiswyr

Mae'n hanfodol eich bod yn egluro'r hawl i'r ymgeisydd mewn ffordd niwtral. Awgrymwn fod y geiriau canlynol yn cael eu defnyddio. Sylwch nad oes angen i chi gynnig yr hawl i archwilio'r dystysgrif feddygol os yw'r farwolaeth wedi cael ei chyfeirio at y crwner, gan nad oes angen ffurflen Amlosgi 4 yn yr achosion hyn ac nid yw'r hawl i archwilio yn berthnasol.

> "Mae gennych hawl i archwilio'r dystysgrif feddygol a gwblhawyd gan yr ymarferydd meddygol cyn awdurdodi'r amlosgi. [Caiff amlosgi ei awdurdodi gan ganolwr meddygol, hynny yw, ymarferydd meddygol sy'n gyfrifol am wirio'r tystysgrifau meddygol.]
>
> Os ydych yn fodlon eich bod yn ymwybodol o achos y farwolaeth ac nad oes gennych unrhyw broblemau na phryderon ynghylch y farwolaeth, yna efallai y byddwch yn penderfynu nad oes fawr o reswm i chi archwilio'r dystysgrif feddygol.
>
> Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw amheuon, pryderon neu gwestiynau am achos y farwolaeth, neu efallai eich bod wedi synnu bod y farwolaeth wedi digwydd pan ddigwyddodd hynny, efallai y byddwch am arfer eich hawl i archwilio'r dystysgrif feddygol.
>
> Gallwch chi archwilio'r dystysgrif feddygol eich hun. Fodd bynnag, os nad ydych chi eisiau gwneud hynny, gallwch enwebu rhywun arall i'w archwilio ar eich rhan. Efallai y byddwch am wneud hyn, er enghraifft, os ydych chi'n meddwl y byddai rhywun arall mewn sefyllfa well i fynd drwy'r dystysgrif feddygol (efallai oherwydd y gallai'r broses fod yn anodd i chi, neu bod y person arall wedi bod yn bresennol adeg y farwolaeth ac nad oeddech chi).
>
> Does dim rhaid i chi benderfynu ar hyn o bryd.
>
> Os oes gennych chi bryderon difrifol am y farwolaeth yn barod a'ch bod yn credu y dylai crwner ymchwilio i'r achos, mae angen i chi gysylltu â swyddfa'r crwner [ar yr adeg hon dylech roi manylion cyswllt a chymorth arall yn ôl yr angen].
>
> Bydd y tystysgrif feddygol ar gael i chi eu harchwilio yn swyddfa'r amlosgfa am ddim mwy na 48 awr ar ôl i chi gael gwybod ei bod wedi cyrraedd yno.
>
> Os dymunwch, gall y canolwr meddygol roi cyngor i chi am achos y farwolaeth, ond gall godi ffi am y gwasanaeth hwn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y daflen hon [Dylech wedyn roi'r daflen].

Os ydych am i'r angladd gael ei gynnal o fewn y ddau neu dri diwrnod nesaf, mae'n ddigon posibl y bydd yn anodd i hynny ddigwydd ac i chi hefyd allu archwilio'r tystysgrifau meddygol. Fodd bynnag, eich penderfyniad chi yw hynny.”

# Atodiad B – Mewnblaniadau pŵer batri a mewnblaniadau eraill a allai achosi problemau wrth amlosgi gweddillion dynol

Rheolydd calon

Diffibrilwyr Diffibriliwr Cardiaidd (ICDs)

Dyfeisiau therapi ailgydamseru cardiaidd (CRTDs) Recordyddion dolen mewnblanadwy

Dyfeisiau cymorth fentriglaidd (VADs): Dyfeisiau cymorth fentriglaidd chwith (ADV), dyfeisiau cymorth fentriglaidd dde (RVADs), neu ddyfeisiau cymorth deufenriglaidd BiVADs)

Pympiau cyffuriau mewnblanadwy gan gynnwys pympiau mewnweiniol

Niwrosymbylwyr (gan gynnwys ar gyfer poen a Symbyliad Trydanol Gweithredol) Symbylwyr twf esgyrn

Siyntau hydroceffalws y gellir eu rhaglennu

Hoelion gosod

Unrhyw fewnblaniad arall sy'n defnyddio batri neu sy'n cynnwys pwysedd

Mewnblaniadau ymbelydrol

Triniaeth radiofferylliaeth (drwy bigiad)

© Hawlfraint y Goron 2022

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae’r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i
coroners@justice.gov.uk